



---

# ADRODDIAD YR ARHOLWR

---

**LEFEL 3**

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL:  
EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**IONAWR 2021**



Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:  
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

### **Adroddiad Ystadegol Blynnyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynnyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

## Lefel 3

Ionawr 2021

### UNED 2: FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR DWF A DATBLYGIAD UNIGOLION AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES A SUT MAE HYN YN EFFEITHIO AR GANLYNIADAU AC ANGHENION GOFAL A CHYMORTH

#### Sylwadau Cyffredinol

Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr a oedd yn rhoi cynnig ar gwestiynau wedi ennill rhywfaint o farciau ond roedd nifer o atebion hollol anghywir, sy'n awgrymu y byddai ymgeiswyr yn elwa ar fwy o baratoi ar gyfer yr arholiad. Roedd cymysgedd amlwg rhwng ymgeiswyr oedd wedi'u paratoi'n dda a'r rhai hynny oedd angen adolygu mwy er mwyn rhoi cynnig ar gwestiynau a'u cwblhau'n llawn.

Ni wnaeth nifer o ymgeiswyr roi cynnig ar drawstoriad o gwestiynau ar y papur, yn enwedig Cwestiwn 5 (c), Cwestiwn 6 (b) a Chwestiwn 7 (a). Enillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr a oedd yn rhoi cynnig ar gwestiynau rywfaint o farciau ond, ym mwyafrif y cwestiynau AA3, anaml iawn y dyfarnwyd marciau yn y band uchaf. Nodwyd bod rhai ymgeiswyr wedi dysgu cwestiynau, fel Cwestiwn 4 (b), ar y cof ond ni allant gymhwyso eu gwybodaeth ddamcaniaethol at y senario penodol. Roedd cyflawniad ymgeiswyr ar draws yr holl gwestiynau yn neilltuol is ar gyfer Cwestiwn 6 a Chwestiwn 7.

Ni wnaeth llawer o ymgeiswyr dalu sylw i'r cwestiwn a byddent yn ailadrodd y geiriad, gan fethu ennill marciau ychwanegol. Gwnaeth ymatebion i Gwestiwn 1 (b) fethu nodi'r cwestiwn a oedd yn dweud, "ar wahân i drafferth yn canolbwyntio ac ymddygiad aflonyddgar", a gwnaeth ymgeiswyr barhau i ysgrifennu am y pwyntiau hyn yn eu hatebion. Cafodd Cwestiwn 2 (c) ei gamddarllen hefyd gydag ymgeiswyr yn trafod cefnogaeth Wren yn hytrach na Susan a Mary. Rhaid pwysleisio technegau arholiad sylfaenol wrth addysgu.

Lleiafrif yr ymgeiswyr a ddefnyddiodd y tudalennau parhad ar ddiwedd y papur ateb i estyn eu hatebion ond, mewn rhai achosion, roedd yn amlwg eu bod wedi anghofio cyfeirio at y ffaith hon drwy ddefnyddio rhif y cwestiwn perthnasol a'r unig reswm oedd yr arholwr yn gwybod hynny oedd bod brawddeg heb ei gorffen. Roedd ymgeiswyr hefyd yn parhau i ysgrifennu y tu allan i ymylon y papur gan ddefnyddio seren i gyfeirio at weddill eu hateb. Dylid annog ymgeiswyr i beidio â gwneud hyn gan ei fod yn aml yn drafferthus ac nid yw'n cael ei ddarganfod ar y system marcio electronig.

Roedd cyfathrebu ysgrifenedig, atalnodi a sillafu yn wan ar y cyfan ond, pan ysgrifennwyd ateb yn dda, roedd defnydd rhagorol o derminoleg lefel tri briodol. Roedd defnydd o'r derminoleg oedd yn berthnasol i theori yn gyffredinol yn dda iawn ond nid oedd yn cael ei chymhwyso'n gywir at y cwestiwn. Gwelwyd llawysgrifen wael ar lawer o sgrïptiau, gan gynnwys y defnydd o atebion pwyntiau bwled nad oedd wedyn yn gallu ennill marciau yn y band uchaf.

Roedd y geiriau gorchmynnol yn gyffredinol wedi'u deall yn dda, oni bai am yng Nghwestiwn 6 (b) a oedd yn defnyddio'r gair 'cyferbynnwch'. Fodd bynnag, mae angen ymarfer mwy ar gwestiynau AA3 i sicrhau bod ymgeiswyr yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn llawn i ennill y

marciau uchaf posibl; roedd mwyafrif yr atebion yn cynnig pwyntiau syml oedd yn brin o ddyfnder dealltwriaeth ac nid oeddent yn llunio darn eang o ysgrifennu.

Ar y cyfan, o ystyried y papur yn gyffredinol, nid oedd ymgeiswyr yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth at y senarios penodol ac felly'n colli marciau gwerthfawr. Roedd yn ymddangos bod diffyg dealltwriaeth o'r cwestiwn yn eu hatebion ac roedd yn amlwg bod angen ymdrin â meysydd o'r fanyleb yn fwy manwl i ymgeiswyr lunio ymateb llwyddiannus i'r cwestiwn.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Cw.1 (a)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu amlinellu'r term 'ADHD' ac ennill marciau llawn.

**(b) (i) a (ii)**

Atebodd ymgeiswyr hwn yn dda ond, mewn rhai achosion, gwnaethant golli marciau am ailadrodd y cwestiwn a defnyddio'r termau 'canolbwyntio' ac 'ymddygiad aflonyddgar'. Ni chafodd ymddygiad penodol bob amser ei nodi ond cafodd yr effaith ar oedolaeth ei nodi'n gywir. Nododd ymgeiswyr yr effaith ar ffrindiau, teulu a swyddi, a diffyg hunan-barch, yn gywir yn bennaf.

**(c)** Gwnaeth mwyafrif yr ymgeiswyr gamddarllen y cwestiwn hwn a chymhwyso eu hateb at Wren yn hytrach na Susan a Mary. Roedd ganddynt wybodaeth gryf am Ddamcaniaeth Ddyneiddiol Rogers ond ni allent ennill marciau am ei chymhwyso at Wren.

**Cw.2 (a)** Anaml y dyfarnwyd tri marc llawn am y cwestiwn hwn gan fod ymgeiswyr ddim ond yn gallu nodi hyd at ddau wasanaeth gofal a chymorth cywir. Gwnaeth y mwyafrif gyfeirio at wasanaethau statudol, fel meddyg teulu, a oedd yn anghywir. Nodwyd amrywiol ffyrdd anghywir o sillafu '*respite*' yn y cwestiwn hwn.

**(b)** Rhoddodd mwyafrif yr ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn ac roeddent yn gallu rhoi esboniad da o hawliau gofalwr a sut byddai'n cael ei gefnogi. Roedd y rhan fwyaf yn cydnabod bod gan Megan hawl i asesiad, naill ai ar y cyd ag Aftab neu ar ei phen ei hun, a bod ganddi hawl i gymorth ariannol hyd yn oed pe byddai'n dymuno parhau i weithio. Darparwyd tystiolaeth o derminoleg iechyd a gofal cymdeithasol ym mwyafrif yr atebion; er enghraifft, dull sy'n seiliedig ar gryfderau, canlyniadau llesiant personol, gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, cynllun gofal person-ganolog, llesiant personol.

**(c)** Nododd mwyafrif yr ymgeiswyr ganlyniadau llesiant Megan ac Aftab yn gywir; fodd bynnag, methodd nifer o ymgeiswyr ag ennill marciau yn y band uchaf gan eu bod wedi anghofio cyfeirio at y ddau gleient. Roedd dealltwriaeth glir o ganlyniadau llesiant ar gyfer y cleient a'i ofalwr.

**Cw.3 (a)** Roedd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn ac roedd cymhwyso gwybodaeth yn briodol yn brin. Gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr nodi y byddai angen arweiniad ar Sam o ran bwydydd, fel dyddiadur bwyd, cyngor a chefnogaeth i gynllunio deiet oedd yn bodloni ei anghenion.

**(b)** Rhoddodd ymgeiswyr gynnig da ar ateb y cwestiwn hwn, gan ganolbwyntio yn bennaf ar yr effaith negyddol y gall hyn ei chael ar dwf a datblygiad Sam.

Roeddent yn gallu cymhwysu eu gwybodaeth gyfannol o iechyd i ateb y cwestiwn hwn.

**Cw.3 (c)** Dangosodd mwyafrif yr ymgeiswyr wybodaeth gadarn am y trydydd sector ond gwnaethant wastraffu amser a marciau yn esbonio'r diffiniad yn hytrach na sut mae'n cefnogi Sam. Roedd y mwyafrif yn gallu deall rôl grwpiau cefnogi, darpariaeth trafndiaeth, grwpiau hunangymorth a darparu cyngor a gwybodaeth ychwanegol.

**Cw.4 (a)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Roedd y mwyafrif yn gallu deall yr astudiaeth achos a disgrifio sut byddai aflonyddwch yn effeithio ar lesiant Angharad. Mae deall y cynllun marcio yn allweddol i ymgeiswyr wrth gymhwysu eu hateb gan fod llawer wedi ailadrodd yr un pwynt a dim ond wedi defnyddio'r lle a ddyrannwyd i ysgrifennu yn hytrach na darparu darn estynedig o ysgrifennu a oedd yn deilwng o'r marciau llawn.

**(b)** Eto, roedd y cwestiwn hwn yn dangos gwybodaeth dda am y Ddamcaniaeth Ymddieithrio ond, mewn rhai achosion, methodd ymgeiswyr ag ateb "pam mae'r risg yn fwy mewn oedolaeth ddiweddarach". Dangosodd y rhai hynny a roddodd gynnig ar y cwestiwn wybodaeth dda ond, mewn rhai achosion, ni wnaethant roi esboniad manwl ond, yn hytrach, rhestru'r ffactorau, gan fethu ag ennill marciau yn y band uchaf.

**Cw.5 (a)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn wan ac roedd diffyg terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol addas wrth esbonio'r defnydd o ganlyniadau i fonitro iechyd a llesiant y wlad. Fodd bynnag, roedd lleiafrif bach yr ymgeiswyr yn gallu ennill marciau llawn ac yn cydnabod y gellir defnyddio canlyniadau i ddatblygu strategaethau newydd ar ôl mesur llwyddiant rhai sydd eisoes yn bodoli, y gallant nodi blaenoriaethau ar gyfer meysydd lle dylid cyfeirio adnoddau, ac y gellir eu defnyddio gan lechyd Cyhoeddus Cymru i lywio ei flaenoriaethau allweddol a datblygu ymgyrchoedd iechyd.

**(b)** Roedd gan ymgeiswyr ddealltwriaeth dda iawn o ffyrdd y gall unigolion fonitro eu hiechyd eu hunain ac roeddent yn gallu cyfeirio at y rhestr a amlinellir yn y fanyleb. Roedd llawer yn gallu ennill marciau llawn drwy esbonio pam byddai hyn yn fuddiol i'w hiechyd neu'r hyn y byddent yn ei wneud â'r wybodaeth.

**(c)** Roedd diffyg gwybodaeth am Ofal Iechyd Darbodus yn amlwg o ymatebion ymgeiswyr. Nododd rhai egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus fel "gwneud yr hyn y mae ei angen yn unig a pheidio â gwneud niwed" ond ni allent nodi sut byddai hyn yn galluogi unigolion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Gwobrwywyd y rhai hynny a atebodd yn gywir am gydnabod galluogi ymyrryd yn gynnar, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i unigolion, darpariaeth gwybodaeth i alluogi ffyrdd iach o fyw, lleihau dibyniaeth ar y GIG, a rôl cyd-gynhyrchu cynlluniau.

**Cw.6 (a) (i) a (ii)**

Dangosodd ymgeiswyr ymwybyddiaeth o Newid am Oes ond roedd diffyg atebion priodol i fynd i'r afael â'r termau 'cefnogi' a 'hybu' yn y cwestiwn. I ennill marciau llawn, roedd y lleiafrif yn gallu cydnabod y maes iechyd a nodwyd, fel

gwella ffitrwydd, sut roedd yn cael ei hybu drwy hysbysebion, cyfryngau cymdeithasol, 'Couch to 5k'.

**Cw.6 (b)** Roedd yr ymateb cyffredinol i'r cwestiwn hwn yn wan, gydag ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth wael am y dull a'r mwyafrif ddim yn gallu cymhwysu'r gair gorchmynnol 'cyferbynnwch'. Roedd dryswch ymhlith yr ymgeiswyr, gydag ymatebion yn cyfeirio at fodel meddygol iechyd yn hytrach na'r pum dull hybu iechyd. Dyfarnwyd marciau am ddisgrifiad sylfaenol o'r dull newid ymddygiadol, gyda'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn deall y nod o annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain a'u galluogi i wneud dewis ar sail gwybodaeth gyda chefnogaeth a chynghor. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu cyferbynnu dull hybu iechyd meddygol cywir, gyda dim ond y lleiafrif yn gallu cyfeirio at yr angen am imiwneiddio neu sgrinio ond heb gydnabod y gost, dull poblogaeth gyfan a'r llwyddiant yn dibynnu ar gyfranogiad y boblogaeth.

**Cw.7 (a)** Roedd y cwestiwn hwn yn hygyrch i ymgeiswyr ac roeddent yn gallu cymhwysu eu gwybodaeth, gyda llawer yn nodi'r angen am weithredu dull yn seiliedig ar gryfderau, gan ddefnyddio cynlluniau personol, cyflawni asesiadau cymesur, annog unigolion i fod wrth wraidd gofal a bod â llais a dewis dros y gwasanaethau maent yn eu derbyn. Ni wnaeth unigolion ennill marciau yn y band uchaf os gwnaethant roi ateb ar ffurf pwyntiau bwled neu os nad oeddent yn gallu esbonio'r pwyntiau a wnaed yn llawn.

**(b)** Roedd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, gyda rhai ymgeiswyr yn cymhwysu eu gwybodaeth o feysydd eraill y fanyleb i ateb hwn yn hytrach na'r dulliau penodol a amlinellir yn adran 2.5 y fanyleb. Roedd y rhai hynny a atebodd yn gywir yn gallu nodi pwysigrwydd gweithgareddau adloniadol, annog gweithgareddau therapiwtig, hybu agwedd datrys problemau a chwrsela, gyda marciau wedi'u rhoi am ymatebion fel "darparu gofal person-ganolog".

### **Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Rhaid i ymgeiswyr ddarllen y cwestiynau'n ofalus i osgoi marciau anghywir diangen a chanolbwyntio ar ddefnyddio terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol i gyrraedd y bandiau marciau uchaf.
- Rhaid i ymgeiswyr ddehongli'n ofalus yr hyn y mae'r cwestiwn yn ei ofyn pan roddir senario iddynt, er mwyn osgoi cynhyrchu gwybodaeth amherthnasol.
- Rhaid i ymgeiswyr fod â gwybodaeth drylwyr am bob agwedd ar y fanyleb, gan gynnwys y dulliau i hybu a diogelu gwydnwch, Gofal Iechyd Darbodus, y pum dull hybu iechyd, ynghyd â dealltwriaeth fanwl o sut mae'r wlad yn monitro iechyd a llesiant.
- Rhaid nodi bod yr ymgeiswyr oedd yn sefyll y papur wedi ymgymryd â manyleb Lefel 3 newydd ar gyfer mis Medi 2020 a'u bod wedi dilyn dull astudio dysgu cyfunol yn sgil Covid-19.



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Rhif Ffôn 029 2026 5000  
Ffacs 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)